

Datganiad Newyddion

Dyddiad: Dydd Llun, 07 Awst 2017

Teitl: Prifysgolion a cholegau'n cynnig £29 miliwn o gefnogaeth i fyfyrwyr

Mae prifysgolion a cholegau wedi cadarnhau cynlluniau i fuddsoddi mewn cyfleoedd i newid bywydau myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru. Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi cymeradwyo cynlluniau i ymrwymo i ddarparu mwy na £29 miliwn mewn bwrsariau, ysgoloriaethau a chyllid caledi i fyfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19, drwy gyfrwng cynlluniau mynediad a ffioedd.

Mae'r cynlluniau'n cynnwys buddsoddi mwy na £104 miliwn ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, fel denu a chadw grwpiau o fyfyrwyr a dangynrychiolir yn draddodiadol mewn addysg uwch, gan sicrhau bod myfyrwyr yn gwneud cynnydd, yn cwblhau eu cyrsiau ac yn llwyddo, a gwella sgiliau cyflogadwyedd a chyflogaeth graddedigion.

Mae cynlluniau mynediad a ffioedd deg o brifysgolion a cholegau wedi cael eu cymeradwyo yn awr gan CCAUC, sydd hefyd yn golygu eu bod yn gallu cyhoeddi lefel eu ffioedd ar gyfer cyrsiau israddedig a TAR llawn amser ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19.

Drwy fuddsoddiad sylweddol mewn cynlluniau mynediad a ffioedd, bydd prifysgolion a cholegau'n cyflwyno amrywiaeth eang o weithgareddau wedi'u targedu, yn ychwanegol at gefnogaeth i fyfyrwyr, gan gynnwys gweithio gydag ysgolion mewn cymunedau heb draddodiad cryf o ddysgu a sgiliau ar lefel uwch a ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau o'r sector preifat a'r trydydd sector i wella sgiliau graddedigion. Mae prifysgolion a cholegau yng Nghymru wedi ymrwymo i oresgyn y rhwystrau sy'n atal

dysgu y mae cymaint o fyfyrwyr talentog yn eu hwynebu. Bydd cyllid cynlluniau mynediad a ffioedd yn cefnogi'r dysgwyr sydd â'r angen mwyaf, gan gynnwys myfyrwyr sydd â chefnidir gofal neu gefndir difreintiedig arall. Mae'r holl brifysgolion a cholegau wedi cynnwys eu hundebau myfyrwyr neu'r corff cyfatebol mewn datblygu a llunio eu cynlluniau'n derfynol, er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion y myfyrwyr.

Dywedodd Dr David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae cynlluniau mynediad a ffioedd yn dangos ymrwymiad prifysgolion a cholegau Cymru i ehangu mynediad a hybu addysg uwch, heb ystyried cefndir. Rydym yn falch bod y prifysgolion a'r colegau'n parhau i wneud cyfraniad gwerthfawr at annog unrhyw un sydd â thalent i wneud cais i addysg uwch. Bydd y gweithgareddau a'r targedau a gefnogir gan y cynlluniau hyn yn cyfrannu at wella mynediad, cadw a llwyddiant mewn addysg uwch ac at ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu i'r rhai sydd ei hangen fwyaf.

"Rhaid i sefydliadau groesi trothwy uchel i gael cymeradwyaeth i'w cynlluniau mynediad a ffioedd gan CCAUC, gan fodloni gofynion o ran ansawdd a chynaliadwyedd ariannol yn ychwanegol at y rhai ar gyfer cyfleoedd cyfartal a hybu AU. Hefyd mae'n rhaid iddynt fod yn gyrrff elusennol gyda disgwyl iddynt wneud cyfraniad ehangach at les y cyhoedd yng Nghymru. Fel rheoleiddiwr addysg uwch, rydym yn credu mewn parhau i weithio gyda sefydliadau i sicrhau bod eu gweithgareddau, a fynegir drwy eu cynlluniau mynediad a ffioedd, yn diwallu anghenion myfyrwyr, graddedigion, cyflogwyr a chymunedau."

Diwedd

Cyswllt:

Dale Hall

Ysgrifennydd y Cyngor

dale.hall@hefcw.ac.uk

029 2085 9665.

Nodiadau:

Mae'r cynlluniau'n datgan sut bydd prifysgolion a cholegau'n buddsoddi tua £104 miliwn o incwm ffioedd hyfforddi myfyrwyr israddedig llawn amser i gefnogi mesurau cyfleoedd cyfartal ac i hybu addysg uwch.

Gellir cael copïau o'r cynlluniau mynediad a ffioedd a manylion am lefel ac ystod y ffioedd o wefannau'r prifysgolion a'r colegau. Hefyd bydd dolen atynt o [wefan CCAUC](#) wrth iddynt ddod ar gael ar wefannau'r darparwyr.

Cynlluniau mynediad a ffioedd 2018/19 cymeradwy gan:

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Grŵp Llandrillo Menai
- Grŵp NPTC
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Wrth gyflwyno cynlluniau ffioedd a mynediad bydd prifysgolion a cholegau'n ystyried [Datganiad Llywodraeth Cymru](#) ar ffioedd (Gorffennaf 2017)

Am CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng prifysgolion a Llywodraeth Cymru.

Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch ac yn sicrhau bod fframwaith yn ei le ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch a chraffu ar berfformiad prifysgolion.

Rydym yn dosbarthu adnoddau ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch ac yn helpu i roi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch ar waith er lles cymdeithas yn ehangach ac er lles yr economi.

Gallwch ganfod mwy am ein gwaith yn www.hefcw.ac.uk.